13B | Llyn Ogwen i Fethesda

O Bwthyn Ogwen, trowch i'r dde wrth fynd heibio'r ciosg gan gymryd y ffordd gul heibio'r hostel ieuenctid. Dilynwch y ffordd hon am tua 4.5km. Pan fyddwch yn cyrraedd troad siarp i'r dde, dilynwch y llwybr beiciau, Lôn Las Ogwen, sydd yn syth o'ch blaen. Mae'r lôn yn mynd yn ei blaen wrth ymyl y tomennydd llechi ar y chwith am 3.25km arall.

Ewch yn eich blaen wrth ochr yr afon, gan groesi'r ffordd sy'n arwain i Chwarel y Penrhyn drwy dwy giât werdd. Ewch heibio adfeilion ysbyty'r chwarel yn y coed ar eich llaw dde ac ymlaen ar hyd y lôn sy'n rhedeg uchben ac yn gyfochrog â'r ffordd. Cadwch lygad am y siediau a res y fythynnod i lawr ar y dde. Ger yr arwyddbost, ewch i lawr y llwybr cul serth ar y dde gan fynd heibio sied ar y dde. Ar ôl i chi gyrraedd y ffordd, trowch i'r chwith ac ar ôl ychydig fetrau, trowch i'r dde ar hyd llwybr beiciau palmantog gyferbyn â bwthyn rhif 1. Ewch i'r dde ger y gyffordd gan barhau â'r ffens llechi ar eich llaw chwith. Ewch heibio'r caeau chwarae ar eich chwith, croeswch yr Afon Ogwen gan gyrraedd Stryd Fawr Bethesda, bron gyferbyn â chaffi Seren. Trowch i'r chwith nes gyrraedd sgwâr Llys Dafydd a'i gerflynwaith, a mainc a bwrdd dehongli Llwybr Llechi Eryri.

Llongyfarchiadau! Rydych wedi cyrraedd diwedd Llwybr Llechi Eryri a gallwch ddal y bws yn ôl i Borth Penrhyn.

LLWYBR GWAHANOL GAN ORFFEN YM MHORTH PENRHYN

Efallai eich bod yn teimlo'n egnïol ac yn barod i gerdded yn ôl i Borth Penrhyn. Mae'r daith hon tua 9.6km o hyd.

Os felly, ewch ymlaen ar hyd y Stryd Fawr nes i chi gyrraedd Spar eto a throi i'r chwith. Dilynwch eich traed ar hyd Llwybr Llechi Eryri nes i chi gyrraedd pont yr afon. Nawr, cymerwch lwybr beicio Lôn Las Ogwen ar hyd yr afon a thrwy gaeau i'r A5. Ar ôl ychydig, trowch i'r chwith i'r llwybr beicio sy'n mynd dros Afon Ogwen a thrwy dwnnel y rheilffordd. Mae'r llwybr yn cyrraedd y ffordd yn Nhregarth lle rydych chi'n troi i'r dde ac yna i'r chwith i adennill y llwybr beicio.

Mae'r llwybr beicio yn mynd o dan yr A55 ac yn troi i'r dde i ymuno â llinell hen Reilffordd Chwarel y Penrhyn. Dilynwch honno yn ôl i Borth Penrhyn.

Uchod chwith: Dyn Llechen Las, Chwarel Penrhyn
Uchod dde: Mainc y Llwybr, Llys Dafydd, Bethesda
Chwith: Llys Dafydd, Bethesda

ARIANNU: Magnox; Cronfa CAE Parc Cenedlaethol Eryri; Sefydliad Foyle; Sefydliad Garfield Weston; Ymddiriedolaeth Oakdale; Sefydliad Cymunedol Cymru; HF Holidays; Horizon; First Hydro; Ymddiriedolaeth Laspen; Cyngor Tref Bethesda; Cyngor Tref Ffestiniog; Elusen Ogwen; Llechi Cymru; Menter Môn; PAVO; Ymddiriedolaeth Ninevah; Ymddiriedolaeth Gaynor Cemlyn-Jones; Mantell Gwynedd; Sefydliad Ashley; Rehau Plastics; Sefydliad Blakemore; Dŵr Cymru.

Mae Ymddiriedolaeth Llwybr Llechi Eryri yn Elusen Gofrestredig, Rhif 1182188.